

CYLCHGRAWN I FFERMWYR A THYFWYR YNG NGHYMRU

# cyswllt FFERMIO

Tyfu'r busnes gyda thwristiaeth  
sy'n seiliedig ar arddwriaeth

**Magu Lloi Iach**

Pam ei bod yn hanfodol cwmpasu popeth



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

RHIFYN 7 - Hydref-Rhagfyr 2024  
[llyw.cymru/cyswlltffermio](http://llyw.cymru/cyswlltffermio)



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

# CYNNWYS

Ymweld ag EIN FFERMYDD	3
Tyfu'r busnes gyda thwristiaeth sy'n seiliedig ar arddwriaeth	4
Gwella Effeithlonrwydd y Defnydd o Nitrogen trwy gynyddu cynnwys meillion gwyn mewn glaswelltiroedd	6
Pys a ffa crimp fel ffynhonnell o brotein ar gyfer mamogiaid cyfeb	8
Cyllid Arbrofi - Cynaliadwyedd a Pherfformiad Wŷyn	10
Cyllid Arbrofi - Tyfwyr Mefus	11
Cyllid Arbrofi - Hybu Cynaliadwyedd a Lleihau Costau Porthiant	12
Cyllid Arbrofi - Cynhyrchu cnau Ffrengig yng Nghymru	13
Geneteg ar gyfer Pori Adfywiol	14
Trosolwg o farchnadoedd carbon	15
EIDCymru - Ceidwaid Defaid a Geifr	16
Cyngor Iechyd Anifeiliaid a Phrofi	17
Cael yr elw mwyaf posibl o'ch diadell	18
Storfa Sgiliau – Cofnodi Eich Cyflawniadau	18
Pam y gallai DPP fod y buddsoddiad mwyaf cadarn y gwnewch chi byth	19
Magu lloi iach – pam ei bod yn hanfodol cwmpasu popeth	20
Awgrymiadau mewnbyn defnyddiol ar gyfer tyfwyr sy'n ystyried llwybrau newydd i'r farchnad	22
Rheolau BVD Newydd i Gymru	24

Am ragor o wybodaeth  
ewch i wefan  
Cyswllt Ffermio.



Am fwy o fanylion am  
unrhyw brosiect Ein  
Ffermydd, cliciwch ar  
y ddolen ganlynol.








# YMWELD

## Ag Ein Ffermydd - Medi 2024

Gan mai hwn fydd ein Cyhoeddiad Technegol olaf am 2024, fe hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr iawn i'r rhai sydd wedi dod i un neu fwy o'r digwyddiadau **Ymweld ag Ein Ffermydd** eleni. Mae wedi bod yn wych gweld cymaint ohonoch ledled Cymru ar y teithiau fferm hyn, gan weld a chlywed yn uniongyrchol am y treialon sydd wedi'u cynnal ar y fferm o dan Rwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio. Os ydych chi wedi bod yn un o'n digwyddiadau, rydym ni'n gobeithio eich bod chi wedi mwynhau cymaint ag y gwnaethom ni. Gobeithio hefyd eich bod chi wedi cael gwybodaeth newydd neu gael syniad newydd i fynd adref gyda chi i roi cynnig arno ar eich ffermydd eich hun.



Os nad oeddech yn gallu ymuno â ni ar un o'r digwyddiadau Ymweld ag Ein Ffermydd, neu efallai eich bod chi am ymchwilio ymhellach i'r prosiectau, bydd cyfle yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ymweld â fferm sy'n rhan o'r rhwydwaith Ein Ffermydd. Yno cewch glywed mwy am ganlyniadau treialon eraill ar y fferm sy'n cwmpasu'r pynciau canlynol:

Sector	Pryd	Pwnc	Lleoliad
	13/02/25 11:00 - 14:00	Defnyddio genomeg mewn buches sy'n lloia yn y gwanwyn i leihau costau gwartheg cyfnewid	Rhydeden, Llangernyw, Conwy, LL22 8RS
	12/02/25 19:30 - 20:30	Yr heriau a'r cyfleoedd i warchod a gwella'r amgylchedd i fferm laeth yn nalgylch Tywi	Ar-lein
	13/03/25 11:00 - 14:00	Asesu effaith darganfod cloffni yn well ar fynychder cloffni ac achosion o friwiau	Fferm Moreton, Rhiwabon, Wrecsam, LL13 0YH
	23/01/25 13:00 - 15:00	Deall manteision tyfu cymysgedd grawnfwyd a chodlysiau fel porthiant cyflawn	Gelli Goll, Y Bont-faen, CF71 7RW
	05/03/25 11:00 - 14:00	Asesu iechyd a chywasgiad pridd yn dilyn gwlybanaeth yn 2024	Nant y Frân, Amlwch, Ynys Môn, LL68 0UF

*Edrychwn ymlaen at eich gweld ar un o ffermydd rhwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio eto yn fuan.*



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

EIN FFERMYDD  
OUR FARMS

# TYFU'R BUSNES GYDA THWRISTIAETH SY'N SEILIEDIG AR ARDDWRIAETH

P'un a ydych chi'n datblygu busnes 'casglu eich hun' (PYO) neu'n adeiladu atyniad i dwristiaid o amgylch menter garddwriaeth dymhorol, mae yna lawer o gyfleoedd i arallgyfeirio i'r sector twristiaeth arddwriaethol. Mae yna sawl opsiwn arall o ran arallgyfeirio sy'n gallu ffitio i fodel fferm sy'n bodoli eisoes er mwyn cynnig ffrwd incwm arall i'r busnes.

## Arallgyfeirio i Fusnes Pwmpenni Casglu Eich Hun (PYO)

Mae gan Lower House Farm 114 erw ar waelod Bryniau Coed Gwent yn Llanfair Isgoed, Sir Fynwy. Roedd yn arfer bod yn fferm laeth, ond mae bellach yn cadw cymysgedd o dda byw – yn magu lloi a mamogiaid bridio gan fwyaf. Mae'r fferm, sy'n eiddo i Gyngor Sir Fynwy, yn cael ei rhedeg a'i rheoli gan Matt Brooks a Laura Pollock, newydd-ddyfodiaid sy'n ceisio arallgyfeirio'r busnes i nifer o wahanol gyfeiriadau. Yn ogystal â'r uchod, mae ganddyn nhw anifeiliaid eraill, gan gynnwys gwartheg yr Ucheldir a Belted Galloway, geifr, defaid, ieir a moch. Maen nhw'n cadw'r rhain ar gyfer yr ymwelwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad pobl o amaeth a sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru.

*Matt Brooks a Laura Pollock - Lower House Farm*



Fel rhan o rwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio, mae Lower House Farm wedi neilltuo 1.5 acer i dreialu menter pwmpenni 'casglu eich hun' y tymor hwn. Mae'r arbrawf yn cymharu gwahanol ffyrdd o luosogi â sefydlu planhigion, yn treialu gwahanol fathau o bwmpenni, ac yn archwilio'r gwerth ychwanegol a ddaw o dwristiaeth ar gyfer diwrnodau agored ar y fferm. Heb unrhyw brofiad blaenorol ym myd garddwriaeth, mae Laura a Matt wedi croesawu'r her o dyfu pwmpenni am y tro cyntaf. Maen nhw'n rhagweld y byddan nhw'n cynhyrchu £7,000 yn ystod y pythefnos cyn Calan Gaeaf.

**Cliciwch yma i ddilyn cynnydd yr arbrawf.**

### **Ble i ddechrau arni gyda thwristiaeth sy'n seiliedig ar arddwriaeth?**

O safbwynt ymarferol, man cychwyn da yw dadansoddi'r pridd i ddeall beth fydd yn tyfu'n dda ar y fferm. Gan ystyried yr agwedd, y dirwedd a'r isadeiledd ar y safle, gallwch wedyn archwilio gwahanol fentrau garddwriaeth.

Os yw amser a llafur yn rhwystr i arallgyfeirio, gallai sefydlu eich menter casglu eich hun (PYO) fod yn gyfle posibl i gyd-fynd â'r model busnes presennol. Ymhlith yr opsiynau mwyaf poblogaidd ar gyfer menter PYO mae ffrwythau meddal, blodau, pwmpenni, coed Nadolig, blodau wedi'u torri, a llysiau. Mae atyniadau fel caeau o flodau'r haul a lafant hefyd yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae'r mentrau hyn yn creu opsiynau am farchnad werthu eilaidd h.y. gwerthu cynnyrch yn syth i'r farchnad drwy fwytai, gwerthwyr blodau a manwerthwyr eraill.

Mae argaeledd tir yn gallu pennu pa lwybr i'w ddilyn, yn ogystal ag amserlen. Mae coed Nadolig yn cymryd saith mlynedd i dyfu i aeddfedrwydd. Ar y llaw arall, mae llawer o gnydau PYO yn rhai blynyddol, ac yn darparu incwm mwy uniongyrchol. Mae angen cylchdroi llawer o gnydau sy'n pennu faint o dir sydd ei angen dros gyfnod hwy o amser. Er enghraifft, mae angen cylchdroi cnydau o fefus bob tair blynedd i leihau'r pwysau gan glefydau ac i gynnal iechyd y pridd. Bydd angen ystyried cael rhagor o dir o'r dechrau. Mae ystyriaethau eraill o safbwynt tir yn cynnwys yr angen i chwyntu ac am beiriannau.

### **Cyfleoedd am werth ychwanegol**

Mae twristiaeth sy'n seiliedig ar arddwriaeth yn gallu cynyddu faint o bobl sy'n dod i'r safle gan greu mwy o incwm, a hynny drwy allfeydd sy'n bodoli eisoes neu rai eraill fel siop fferm, caffi, cyrsiau neu ddigwyddiadau. Mae mentrau PYO yn gallu cynyddu'r potensial am incwm gydag atyniadau twristaidd fel ceirw a groto Siôn Corn ar fferm coed Nadolig, neu weithgareddau Calan Gaeaf a lluniaeth ar safle menter pwmpenni.

### **Mynediad a chyfleusterau**

Mae agosrwydd y fferm at ffordd sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda yn hanfodol i ddenu twristiaid i'r gyrchfan. Lle bo modd, dylech gael system rheoli traffig unffordd ar y fferm i atal unrhyw dagfeydd a'r effaith ar ffermydd a ffyrdd cyfagos. Mae systemau archebu ar-lein yn ffordd wych o reoli nifer yr ymwelwyr a llif traffig, ac mae cael mwy o staff neu wirfoddolwyr yn ystod oriau agor yn fantais. Bydd angen i chi ystyried cael digon o le i barcio ceir yn ogystal â thoiledau.

Ymhlith y pethau eraill y dylech chi eu hystyried wrth gynyddu twristiaeth i'r fferm yw yswiriant, safonau iechyd a diogelwch ac ardystiad hylendid bwyd priodol os yw arlwygo yn rhan o'r fenter.

Mae Cyswllt Ffermio ar gael i gefnogi ffermwyr sy'n ystyried arallgyfeirio. Cysylltwch â **[hannah.norman@mentera.cymru](mailto:hannah.norman@mentera.cymru)** / **07497 368 476** am ragor o fanylion.





## Gwella Effeithlonrwydd y Defnydd o Nitrogen trwy gynyddu cynnwys meillion gwyn mewn glaswelltiroedd

Mae'r prosiect hwn yn ymchwilio i feillion gwyn. Codlysiâu yw'r rhain sy'n gallu arbed costau gwrtaith Nitrogen ar fferm laswelltir. Gyda nodiwlau gwreiddiau yn cynnwys bacteria sy'n sefydlogi nitrogen, mae nitrogen atmosfferig yn cael ei ddal a'i drawsnewid yn ffurf sy'n gallu cael ei defnyddio gan blanhigion. Mae hyn, o bosibl, yn gallu disodli hyd at 150 kg/ha o wrtaith synthetig. Mae gan feillion gwyn y treuliadwyedd uchaf o'r holl blanhigion glaswelltir cyffredin. Mae gan y math hwn hefyd gynnwys protein crai uchel, gan arwain at borfeydd o safon uwch ar gyfer anifeiliaid sy'n pori.

### Beth gafodd ei wneud

Yn Rhyd y Gofaint, cafodd dau gae (*Cae Ysgol a Chae Bargoed*) eu tros-hadu â meillion gwyn yn gynnar ym mis Mehefin gan ddefnyddio dril Erth Agriseeder (Ffigur 1.) Heuwyd dwy driniaeth wahanol o feillion:

1. cyfuniad o feillion gwyn safonol
2. meillion hybrid newydd sy'n cynhyrchu stolonau a rhisomau tanddaearol.

Cafodd y ddau fath eu hau ar 2kg/erw, ac ym mhob cae cafodd stribedi rheoli eu gadael heb unrhyw feillion wedi'u hau.

Cafodd y ddau gae eu torri am silwair cyn hau oherwydd glaswellt dros ben ar gyfer pori. Cafodd y meillion eu hau mewn un pas ynghyd â phelenni gwllithod. Cafodd y ddau gae eu pori yn fuan ar ôl hau a chafodd y rownd bori ei byrhau i tua 20 diwrnod er mwyn lleihau cystadleuaeth gan y glaswellt.

Gyda chyfradd hadau uchel o 2kg/acer, cafodd 700 o hadau fesul m<sup>2</sup> eu hau gan fod yn rhaid i'r broses o sefydlu ymdopi â thyfiant glaswellt ar ei uchaf a chryn bwysau gan wllithod.



Ffigur 1. Peiriant hau Erth Agriseeder ar waith

### Canlyniadau'r broses sefydlu

Ym mis Awst, cafodd nifer y planhigion meillion eu cyfrif ym mhob cae a thriniaeth (Ffigwr 2), ac ar ddiwedd mis Medi, gwnaed asesiad gweledol o faint o'r tir oedd dan feillion gwyn (Tabl 1).

Mae'r meillion wedi sefydlu'n dda yn y ddau gae, er bu hyn yn fwy llwyddiannus yng Nghae Bargoed. Efallai fod hyn oherwydd roedd llai o laswellt yn gorchuddio'r tir yn ystod y cyfnod hau. Mae hyn wedi parhau i gynhyrchu sgorau uwch o ran gorchudd tir ddiwedd mis Medi. Mae cael pob llain â thros 10% ohoni dan orchudd meillion yn ei flwyddyn sefydlu yn ddechrau da iawn i'r prosiect a dylai barhau i adeiladu'r flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd, does dim gwahaniaeth mawr rhwng y ddau fath sy'n cael eu defnyddio, er y gellid disgwyl hyn gan nad yw'r meillion croesryw yn debygol o ddatblygu eu rhisomau tan y flwyddyn nesaf.

Mae sefydliad y meillion yn llawer iawn llai yn y manau gwlypach ym mhob cae. Gyda phriddoedd mwy llaith, efallai fod yr hadau wedi cael eu hau'n ddyfnach neu gallai'r slot hau fod wedi'i daenu ychydig. Bydd y ddau senario hyn yn cyfyngu ar eginio llwyddiannus. Mae'r manau gwlypach hefyd yn tueddu i fod â mwy o faeswellt ymledol sy'n dueddol o fygu'r eginblanhigion newydd.



Ffigwr 2. Cyfrif o'r meillion (gweladwy)

Tabl 1. Canlyniadau'r cyfrif o laswellt

	Cae Ysgol			Cae Bargoed		
	AberDairy	AberLasting	Rheoli	AberDairy	AberLasting	Rheoli
Cyfrif o'r planhigion// m <sup>2</sup> Awst	85	65	3	135	170	6
% y tir dan orchudd ym mis Medi	10	12	1	18	15	1

### RHEOLI YN YSTOD Y GAEAF

Bydd gwarchod y planhigion ifanc y gaeaf hwn yn hanfodol er mwyn cynnal mwy o feillion y flwyddyn nesaf.

1. Bydd pori gan wartheg yn hwyr yn y tymor yn ysgafn, yn enwedig os bydd cyflwr y tir yn parhau i fod yn wlyb.
2. Bydd defaid yn pori ar gylchdro; os byddan nhw'n aros mewn padog am fwy nag ychydig ddyddiau, fe allan nhw ddechrau dewis y planhigion meillion a'u pori allan.
3. Fydd dim mwy na 30kgN/ha o nitrogen yn cael ei daenu yn y gwanwyn, a bydd gorchuddion yn y gwanwyn islaw 2500kgDM/ha.



## Pys a ffa crimp fel ffynhonnell o brotein ar gyfer mamogiaid cyfeb

Gallwch ddefnyddio pys a ffa fel rhan o ddietau anifeiliaid sy'n cynnwys cil, a hynny fel ffynhonnell ddefnyddiol o egni a phrotein. Mae pys a ffa ar gyfartaledd yn cynnwys tua 26% o brotein yn y deunydd sych. Mae'r ddau yn cynnwys llawer o egni, gan gynnwys 13.6 i 14 MJ/kgDM ac yn darparu ffynhonnell wych o startsh hefyd. At ddibenion yr arbrawf hwn, prynwyd pys a ffa crimp o fferm arall.

### Beth gafodd ei wneud

Dewiswyd 180 o famogiaid o'r ddiadell a dyrannwyd chwe grŵp o tua 30 o famogiaid sy'n efeilliaid i un o ddwy driniaeth ddietegol:

1. Diet safonol – TMR yn seiliedig ar silwair glaswellt, india-corn a dwysfwyd protein crai (50%).
2. Pys a ffa – TMR yn seiliedig ar silwair glaswellt, india-corn a pys a ffa crimp.

### Diet TMR – Safonol

Diet safonol		Wythnosau cyn wyna			
	Kg/pen/diwrnod	7	5	3	1
Gefeilliaid	Silwair	4.7	4.7	4.7	4.5
	Indrawn	0.15	0.15	0.3	0.5
	Agrii Combi pro (50% CP)	0.10	0.15	0.15	0.15

Cafodd tri grŵp o 30 o famogiaid eu neilltuo ar gyfer pob triniaeth ac fe gawson nhw eu rhoi ar bob pen o'r un sied.

Cafodd y rhan fwyaf o'r mamogiaid a'r ŵyn eu troi allan i laswellt o fewn 36 awr i ŵyna. Roedd yr holl ddefaid yn pori ar yr un caeau. Roedd y tywydd yn heriol trwy gydol y cyfnod ŵyna ac yn gynnar yn y cyfnod blaetha. Cafwyd sawl diwrnod gwlyb ac oer gyda llawer o ŵyn yn dioddef o glwy'r cymalau.

### Dognau TMR

Cafodd y silwair, pys a ffa eu dadansoddi er mwyn ffurfio'r dietau isod ar gyfer y ddau grŵp. Cynlluniwyd dietau i ddarparu'r un faint o Egni Metaboladwy a Phrotein Metaboladwy.



Pys a ffa crimp



Un criw o'r mamogiaid yn y sied

## Diet TMR – pys a ffa

Diet TMR - pys a ffa		Wythnosau cyn wyna			
	Kg/pen/diwrnod	7	5	3	1
Gefeiliaid	Silwair	4.7	4.7	4.7	4.5
	Indrawn	0.15	0.15	0.15	0.35
	Pys/ffa	0.15	0.25	0.30	0.30
	Agrii Superstock 40	-	0.03	0.05	0.05

Roedd mamogiaid yn derbyn 25g o fwyn y pen/diwrnod ar y ddau ddiet.

Cyfanswm cost amcangyfrifedig y porthiant fesul mamog am y saith wythnos cyn wyna oedd £14.25 ar y diet safonol, a £13.90 ar y dogn o bys a ffa.

### Perfformiad anifeiliaid

Dechreuodd y cyfnod wyna ar 5 Mawrth 2024. Roedd yr holl ddarlleniadau colostrwm Brix a gymerwyd ar gyfer y ddau grŵp yn uwch na'r lefel a argymhellir o 26.

### Enillion pwysau byw (DLWG) ar gyfer pob oen sy'n cael ei fagu hyd at 10 i 13 wythnos

	Diet safonol	Pys a ffa
DLWG (g/diwrnod) / pob oen	0.234 (n=145)	0.275 (n=121)
DLWG (g/diwrnod) wŷn benyw	0.248 (n=84)	0.274 (n=65)
DLWG (g/dydd) wŷn hwrdd	0.253 (n=61)	0.283 (n=56)

Roedd cryn wahaniaeth yn y DLWG rhwng y triniaethau, gydag wŷn oedd yn perthyn i famau a oedd yn cael eu bwydo â phys a ffa, yn hytrach na'r cymysgedd dwysfwyd safonol, yn tyfu tua 40g/dydd yn gyflymach.

## CASGLIADAU

Mae'r arbrawf peilot hwn wedi dangos bod modd defnyddio pys a ffa crimp yn llwyddiannus mewn dietau TMR ar gyfer mamogiaid cyfeb, gan ennill DLWG o tua 40g DLWG/oen y dydd. Mae hyn yn gyfystyr â phwysau ychwanegol o tua 2.8 kg o bwysau byw (kgLW) dros 10 wythnos, sydd yn ôl prisiau cyfredol (SQQ o 654.50c/kgDW 7/9/24) yn werth £8.61. Mae'r wŷn hyn hefyd yn gadael y fferm yn gynharach ac yn rhyddhau porfa i famogiaid.



# CYLLID ARBROFI

## Cyllid Arbrofi Cyswllt Ffermio yn Helpu Ffermwyr i Wella Cynaliadwyedd a Pherfformiad Ŵyn

Mae prosiect gan David a Will Lewis, Treforgan, Llandrindod, wedi cael cyllid drwy Gyllid Arbrofi Cyswllt Ffermio. Mae'r prosiect hwn, sy'n dwyn y teitl "Cymharu perfformiad ŵyn ar wahanol wndwn," yn un o 17 prosiect a ddewiswyd ledled Cymru i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd penodol y mae ffermwyr yn eu hwynebu.

Nod hyn yw nodi'r cyfansoddiad gwndwn mwyaf effeithiol ar gyfer sicrhau perfformiad gorau posibl yr ŵyn ar ôl diddyfnu. Bydd y prosiect yn cymharu enillion pwysau byw dyddiol ŵyn (DLWG) a chyfrif wyau ysgarthol (FEC) ar draws tri math gwahanol o wndwn: gwndwn amlyrwogaeth, gwndwn glaswellt sydd â llawer o siwgr, a gwndwn rhygwellt lluosflwydd.

Sefydlwyd y gwndwn y llynedd ar dri chae sydd wedi cael eu rheoli'n debyg yn hanesyddol. Mae toriad o silwair wedi'i gwblhau a'r cnwd wedi'u cofnodi. Bydd grwpiau o ŵyn wedi'u diddyfnu wedyn yn cael eu cyflwyno i'r adladd silwair a bydd eu perfformiad yn cael ei fonitro a'i gofnodi gyda thechnoleg EID. Bydd data ar bwysau'r ŵyn, cyfrif wyau ysgarthol, cynnyrch silwair, a ffactorau eraill yn cael eu casglu a'u dadansoddi trwy gydol y prosiect.

"Dyma enghraifft wych o sut mae ffermwyr Cymru yn croesawu technoleg ac arferion cynaliadwy," meddai Lisa Roberts, Rheolwr Sector Cig Coch Cyswllt Ffermio. "Trwy ymchwilio i effaith gwahanol wndwn ar berfformiad ŵyn, mae David a Will nid yn unig yn anelu at wella effeithlonrwydd eu fferm eu hunain ond hefyd yn cyfrannu gwybodaeth werthfawr i'r gymuned amaethyddol ehangach."

Bydd adroddiad terfynol ar y prosiect ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio y flwyddyn nesaf. Cadwch lygad ar ein gwefan am ragor o wybodaeth ac i ddarganfod mwy am brosiectau eraill y cyllid arbrofi.



David Lewis - Treforgan



# CYLLID ARBROFI

## ‘Cyllid Arbrofi’ yn ceisio dod o hyd i reolaeth fiolegol effeithiol yn erbyn gelyn tyfwyr mefus

Mae tyfwr ffrwythau meddal o Gymru a gollodd ei gnwd mefus yn gyfan gwbl i bla o bryfed yn y gorffennol yn sefydlu cytrefi o bryfed ysglyfaethus yn y cnwd cyn ac ar ôl iddo flodeuo mewn ymgais i ddod o hyd i ddull amgen biolegol ac effeithiol o reoli plâu yn hytrach na chwistrellu pryfleiddiad.

Mae thripsod blodau'r Gorllewin (WFT) a nifer o rywogaethau thripsod yn rhai o elynion pennaf tyfwyr mefus, ac mae hynny'n arbennig o wir yn achos Bellis Brothers, Holt, ger Wrecsam, a gollodd gnwd cyfan o fefus gwerth £25,000 dair blynedd yn ôl i thripsod.

Gyda chyllid gan Gyllid Arbrofi Cyswllt Ffermio ac arweiniad arbenigol gan entomolegwyr yn ADAS, mae'r rheolwr Adrian Marks yn arbrofi gyda'r pryf ysglyfaethus Orius laevigatus sy'n bwydo oddi ar thripsod. Er mwyn cefnogi'r boblogaeth Orius, mae

wedi plannu alyssum, sef cnwd cyfatebol sy'n denu thripsod ac yn darparu ffynhonnell fwyd i'r pryfed.

“Y strategaeth yw rhyddhau ysglyfaethwyr Orius i'r alyssum cyn i'r mefus flodeuo,” eglurodd Adrian. “Mae hyn yn galluogi'r pryfed i sefydlu a chynyddu eu niferoedd cyn i'r thripsod ymledu i'r planhigion mefus.”

Wrth i'r mefus ddechrau blodeuo, y gobaith yw y bydd yr Orius yn symud i'r planhigion ac yn rheoli'r boblogaeth thripsod, gan eu hatal rhag niweidio'r ffrwythau.

Dywed swyddog sector garddwriaeth Cyswllt Ffermio, Hannah Norman, y bydd canlyniadau'r arbrawf ar fferm Bellis Brothers yn cael eu rhannu gyda thyfwyr eraill unwaith y daw'r prosiect i ben.

Mae'r Cyllid Arbrofi yn rhoi cyfle i dyfwyr a ffermwyr i fod yn arloesol ac i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o wneud pethau, meddai.



Adrian Marks a Hannah Norman



# CYLLID ARBROFI

## Fferm yng Ngorllewin Cymru yn Hybu Cynaliadwyedd a Lleihau Costau Porthiant trwy Cyllid Arbroti Cyswllt Ffermio

Nod Llyr Griffiths o Fferm Tafarn y Bugail yn Llangoedmor, Ceredigion yw gwella cynaliadwyedd y fferm a lleihau dibyniaeth ar borthiant wedi'i brynu ar gyfer ei fuches laeth o 400 o wartheg trwy dyfu india-corn gyda blodau'r haul fel cnwd cyfatebol, fel rhan o raglen Cyllid Arbroti Cyswllt Ffermio.

Bydd y prosiect yn archwilio hyfywedd tyfu blodau'r haul ochr yn ochr ag india-corn fel cnwd cyfatebol. Mae blodau'r haul yn cynnig mwy o brotein na india-corn, gan leihau'r angen am ffynonellau proteïn drud wedi'i brynu megis soia o bosibl. Yn ogystal, bydd rhygwellt Westerwold yn cael ei hau yn syth ar ôl cynaeafu'r india-corn i leihau erydiad pridd ac er mwyn darparu porthiant gwerthfawr ar gyfer y gaeaf.

Nod y prosiect yw ymchwilio i effeithiolrwydd blodau'r haul fel cnwd cyfatebol i india-corn wrth hybu cynnwys proteïn buchod llaeth a dangos pa mor ymarferol yw tyfu blodau'r haul yn hinsawdd Gorllewin Cymru. Mae targedau eraill yn cynnwys defnyddio rhygwellt Westerwold i atal erydiad pridd

yn ystod y gaeaf ac er mwyn darparu dwysfwyd y gaeaf o safon uchel a lleihau dibyniaeth ar ddwysfwyd a brynir ac o bosibl lleihau costau dwysfwyd yn gyffredinol.

Cychwynodd y prosiect ym mis Mai 2024 a bydd yn dod i ben ym mis Chwefror 2025. Mae cerrig milltir allweddol yn cynnwys plannu'r india-corn a blodau'r haul, monitro twf y cnydau, cynaeafu, dadansoddi gwerth y porthiant, a gwerthuso'r effaith economaidd ac amgylcheddol.

Dywedodd Llyr Griffiths, "Rydym yn edrych ymlaen at gychwyn y prosiect arloesol hwn ac archwilio ffyrdd o wella cynaliadwyedd ein fferm wrth leihau costau porthiant o bosibl. Credwn y gall y dull hwn fod o fudd i'n busnes a'r amgylchedd."

Ychwanegodd Lawrence Couzens, agronomegydd y fferm, "Mae'r prosiect hwn yn rhoi addewid sylweddol i ffermwyr llaeth Cymru. Drwy dyfu cnwd cyfatebol sy'n llawn proteïn a defnyddio rhygwellt Westerwold, gallwn o bosibl greu strategaeth porthiant fwy cynaliadwy a chost-effeithiol."



Llyr Griffiths gyda chae wedi ei rollo a hedyd blodyn yr haul



# CYLLID ARBROFI

## Arbrawf tyfu cnau yn edrych ar hyfywedd cynhyrchu cnau Ffrengig yng Nghymru

Mae pâr o Sir Gâr yn arbrofi gyda thyfu cnau ar eu tir.

Mae Martyn Williams ac Alison Harwood wedi plannu coed cnau Ffrengig a choed castanwydd pêr ar lethr un hectar sy'n wynebu'r de yn edrych dros Afon Tywi ar Fferm Old Castle, Llangain.

Mae cnau yn cael eu tyfu'n fasnachol yn fwy nag erioed yn y DU wrth i'r hinsawdd gynhesu, gan wneud cynnyrch yn fwy hyfyw o safbwynt economaidd, ond yr hyn sy'n llai hysbys yw pa mor addas yw'r fenter hon i amodau'r tywydd yng ngorllewin Cymru, neu'r priddoedd cleiog cymharol asidig ar fferm Old Castle.

Er mwyn archwilio hyn, mae Martyn ac Alison wedi derbyn cyllid gan gronfa 'Cyllid Arbrofi' Cyswllt Ffermio, menter sy'n darparu cyllid i unigolion a grwpiau o ffermwyr a thyfwyr i arbrofi gyda syniadau a'u gwireddu.

Maent wedi plannu 20 o goed cnau Ffrengig ac 20 o goed castanwydd pêr, amrywiaethau a ddewiswyd am nodweddion twf sy'n cyfateb â lledred y rhanbarth.

Mae twf y coed bellach yn cael ei fonitro, ac i roi'r cyfle gorau i'r coed ffynnu, mae'r ardal o'u cwmpas yn cael ei gadw'n rhydd o chwyn i atal cystadleuaeth ar gyfer maetholion a lleithder.

Y bwriad yw edrych ar ddefnyddio gwahanol fathau o domwellt, megis gwllân, a hyd yn oed cregyn o draeth lleol, i gydbwysu tymheredd y pridd a chynnal lefelau lleithder.

Mae coed cnau yn ddefnyddiol ar gyfer darparu bioamrywiaeth ar ffermydd, ond o'i gymharu â rhanbarthau eraill yn Ewrop, prin iawn yw'r economi cynhyrchu bwyd o goed yng Nghymru.

Mae'r newid yn yr hinsawdd, ynghyd â newidiadau arfaethedig ym mholisi amaethyddol Llywodraeth Cymru, yn golygu bod angen archwilio gwahanol ddulliau o gynhyrchu bwyd.

Mae'n debygol y bydd hi'n bum mlynedd nes fydd y coed yn cynhyrchu unrhyw gnau, os o gwbl, ond dywed Martyn fod plannu coed yn cynnig etifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â phleser i'r genhedlaeth bresennol.



Martyn Williams a choeden castanwydd pêr



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

DOSBARTHIAU  
MEISTR  
MASTER  
CLASSES

# GENETEG AR GYFER PORI ADFYWIOL

- cyfle i wella eich busnes

**Mae amaethyddiaeth yn newid o hyd, ac yn awr yn bwysicach nag erioed, mae'n hollbwysig sicrhau eich bod yn gyfarwydd â datblygiadau a thechnolegau newydd.**

Mae pori adfywiol yn gallu helpu ffermwyr i leihau costau mewnbwn a chynyddu cynhyrchiant. Ond mae hefyd yn newid sylweddol yn y ffordd rydym ni'n rheoli da byw a thir. Mae'n gofyn am ffordd newydd o feddwl a chyfnod pontio er mwyn addasu.

Er mwyn gwneud i system bori adfywiol weithio, mae angen da byw arnom ni sy'n gallu trosi porthiant yn gig neu laeth, a hynny heb fawr ddim porthiant ategol, os o gwbl, ac ychydig iawn o feddyginiaethau arferol. Bydd newid y system padog neu gyfansoddiad y borfa ond yn eich tywys chi ran o'r ffordd os nad oes gennych chi'r eneteg gywir yn y fuches hefyd.

Os ydych chi'n awyddus i ddysgu mwy am eneteg ar gyfer pori adfywiol i wella perfformiad eich fferm, y gweithdy Cyswllt Ffermio hwn gyda Rob Harvad a Sarah Dugate yw'r union gyfle i chi.

Ffermwr ac ecolegydd yw Rob wedi'i leoli yn Swydd Gaerwrangon a Swydd Gaerloyw. Mae ei fusnes geneteg gwartheg, Phepson Angus, yn arbenigo mewn gwartheg bridio Aberdeen Angus pedigri organig. Maen nhw'n cael eu bwydo â glaswellt ac wedi'u hoptimeiddio i fyw y tu allan a chynhyrchu cig o laswellt. Mae Rob yn defnyddio system o'r enw Pori Cynlluniedig Cyfannol ar draws ei laswelltir amrywiol er mwyn cynhyrchu elw a gwneud lles i ecoleg ar yr un pryd. Mae'n siarad o brofiad, gan roi cipolwg ymarferol ar sut i adfywio tirweddau wrth fridio gwartheg iachach am lai o gost er mwyn gwella'r elw fesul erw.

Mae Sarah yn ffermio yn New House Farm ar Ystâd Old Lands. Ers cymryd y denantiaeth yng ngwanwyn 2024, mae hi wedi bod yn defnyddio Pori Cynlluniedig Cyfannol i adfer y pridd a'r borfa, gan gynyddu

bioamrywiaeth wrth barhau i gynhyrchu bwyd. Mae hi wedi gweithio gyda Rob Havard o Phepson Angus, ac mae ei buches Angus yn cynnwys math traddodiadol o wartheg Aberdeen Angus sy'n byw ar laswellt a rhywfaint o eneteg Phepson. Cafodd yr eneteg ei dewis yn arbennig am ffrwythlondeb, trosi porthiant a rhwyddineb lloia.

**Yn ystod y gweithdy, byddwch yn dysgu**

- › Beth yw system mewnbwn isel?
- › Sut i ddod o hyd i'r stoc gywir o hadau ar gyfer eich system?
- › Pwysigrwydd geneteg mewn glaswellt a buchod
- › Sut i adnabod gwartheg cynhyrchiol yn y fuches?
- › Pam mae epigeneteg yn bwysig wrth ddedhol mewn systemau sydd â mewnbwn isel?
- › Defnyddio gwartheg i adfer cynefinoedd

**Dydd Gwener**  
**24 Ionawr 2025**

**10:00 - 15:00**

**Ble: Llanddingad, Mynwy**

**SESIWN Y BORE**

Neuadd Bentref Llanddingad, Llanddingad,  
Sir Fynwy NP25 4BE

**SESIWN Y PRYNHAWN**

New House Farm,  
Llanddingad, Sir Fynwy NP25 4EB

Am ragor o wybodaeth neu i sicrhau  
eich lle, cysylltwch â

**menna.williams@mentera.cymru**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

DOSBARTHIAU  
MEISTR  
MASTER  
CLASSES

# YMUNWCH Â NI I GAEL TROSOLWG O FARCHNADOEDD CARBON

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050. Mae'n cael ei gydnabod bod gan bob diwydiant, gan gynnwys amaethyddiaeth, ran i'w chwarae wrth leihau faint o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu cynhyrchu. Ond mae busnesau fferm mewn sefyllfa unigryw, gan eu bod nhw'n gallu atafaelu carbon a'i storio mewn priddoedd, coed a gwrychoedd. Ychydig iawn o fusnesau a sectorau eraill sy'n gallu gwneud hyn.

Mae'r potensial i gynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn ein priddoedd, ac mewn biomas uwchlaw'r ddaear, fel coed a gwrychoedd, wedi cael ei nodi fel un ffordd o gyflawni sero net. Oherwydd hyn, mae carbon yn dod yn fwyfwy gwerthfawr fel rhywbeth y gallwch chi ei reoli a buddsoddi ynddo. Gall ffermwyr a pherchnogion tir ddisgwyl mwy o gymorth neu alw gan wahanol sefydliadau y maen nhw'n ymwneud â nhw (e.e. banciau, y gadwyn gyflenwi), a chwmnïau preifat hefyd. Bydd y rhain, lle bo'n bosibl, am werthu eu credydau carbon. Ond rhaid bod yn ofalus wrth ystyried hyn. Efallai y bydd rhai ffermwyr am gadw eu credydau carbon eu hunain er mwyn gwrthbwyso'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu cynhyrchu ar eu fferm – ac unwaith mae'r credydau wedi'u gwerthu, does dim modd eu hailddefnyddio neu'u hailwerthu.

Ydych chi wedi bod yn pendroni mwy am fasnachu credydau carbon ond ddim yn siŵr ble i ddechrau arni er mwyn dysgu am werth credydau? Gallwch wedyn fynd ati i ystyried marchnadoedd carbon fel ffrwd incwm arall.

Mae Non Williams, Swyddog Arbenigol Carbon Cyswllt Ffermio, ac Anna Sellars, SAC Consulting, yma i'ch helpu chi!

Ymunwch â Cyswllt Ffermio am gyflwyniad ar-lein i farchnadoedd carbon, pwnc sy'n ehangu'n gyflym.

Yn ystod y weminar hon, bydd Non yn rhoi trosolwg o'r canlynol i chi -

- Sut mae busnesau ffermio yn gallu cyfrifo eu hól troed carbon
- Eglurhad o ystyr y termau sy'n cael eu defnyddio'n aml mewn perthynas ag ôl troed carbon;
- Sut mae carbon yn cael ei fesur mewn priddoedd, coed a gwrychoedd.

Mae gwaith Anna wedi bod yn arbenigo mewn economïau carbon isel a chylchol a marchnadoedd carbon datblygol. Yn ystod y weminar hon, bydd Anna yn rhoi cipolwg ar y canlynol i chi -

- Beth yw marchnadoedd carbon - y cyfleoedd a'r risgiau
- Sut maen nhw'n effeithio ar fusnesau fferm - cynhyrchu nwyon tŷ gwydr ar y fferm ac atafaelu carbon
- Beth sy'n cael ei wneud i wella uniondeb marchnadoedd carbon?
- Pa gwestiynau y dylai ffermwyr eu gofyn wrth feddwl am werthu credydau carbon?

**Dydd Mercher**  
**4 Rhagfyr 2024**

**19:30 - 20:30**

**Am ragor o wybodaeth neu i neilltuo eich lle, cliciwch yma!**

**Archebwch yma**



## Ceidwaid Defaid a Geifr

Newidiadau pwysig yn cael eu cyflwyno i'r Stocrestr Flynyddol.  
Dyma'r newidiadau perthnasol:

### Newid dyddiad y Stocrestr i 1 Rhagfyr

Eleni bydd angen ichi roi manylion y defaid a'r geifr rydych yn berchen arnyn nhw ar 1 Rhagfyr 2024.

### Symud i Stocrestr Flynyddol Ar-lein

O 1 Rhagfyr 2024 bydd angen cwblhau'r Stocrestr Flynyddol drwy system EIDCymru Ar-lein.

**Ni fyddwn bellach yn anfon y ffurflen bapur arferol** at geidwaid nad oes ganddynt gyfrif ar-lein EIDCymru ar gyfer cwblhau eu stocrestr.

Sut i baratoi ar gyfer y newid hwn:

### Oes gennych chi gyfrif EIDCymru Ar-lein?

Os **OES**



Dim byd i'w wneud

Os **NAC OES**



Gall ceidwaid heb gyfrif gwblhau'r stocrestr trwy borth ar-lein EIDCymru. Beth am i chi gyrchu'r cymorth sydd ar gael i'ch helpu gyda hyn.

### Rydyn yma i helpu

Bydd Staff EIDCymru yn eich helpu i gofrestru ar gyfer cyfrif ar-lein. Maen nhw ar gael drwy ffonio **01970 636959** neu e-bostio **contact@eidcymru.org**

### MARCHNAD DA BYW Amser: 10:00 - 15:00

02/12 & 09/12	Y Trallwng	05/12	Llanelwy
03/12	Rhuthun	06/12 & 13/12	Caerfyrddin
03/12 & 10/12	Aberhonddu	06/12 & 13/12	Dolgellau
4/12 & 11/12	Rhaglan		

Hyd at 90% o gyfraniad ar gael tuag at

# GYNGOR IECHYD ANIFEILIAID A PHROFI

Gall Cyswllt Ffermio gefnogi cyngor ar iechyd anifeiliaid a phrofi gyda'ch milfeddyg lleol.

**Gall cynllun iechyd wedi'i deilwra i bob busnes gynnwys:**

- Adolygiad o driniaethau milfeddygol arferol
- Proffil clefyd da byw
- Meincnodi a nodi meysydd i'w gwella
- Cyngor ar wella statws iechyd yr holl anifeiliaid ar y fferm
- Mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg o gyflwyno neu ledaenu clefyd
- Lles anifeiliaid
- Samplu a phrofi anifeiliaid i ymchwilio i anhwylder posib sydd ar y fferm

Rhaid i ffermwyr a milfeddygon dderbyn cymeradwyaeth gan Cyswllt Ffermio cyn dechrau'r gwaith.

Cyllid cyfyngedig ar gael.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol, neu ffoniwch y Ganolfan Wasanaeth.

 **03456 000 813**

 **[llyw.cymru/cyswlltffermio](http://llyw.cymru/cyswlltffermio)**

Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg  
*We welcome calls in Welsh*



## 'GORAU CYFOETH - IECHYD'



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

SGILIAU A  
HYFFORDDIANT  
SKILLS AND  
TRAINING

## Cael yr elw mwyaf posibl o'ch diadell

Mae rhoi cyfundrefnau iechyd a lles da i anifeiliaid ar waith yn hanfodol wrth redeg menter ddefaid broffidiol. Os nad yw eich diadell yn cyflawni ei photensial o ran cynhyrchiant a pherfformiad, gall cwrs byr gyda Cyswllt Ffermio eich helpu i ganfod datrysiad.



Ellen Firth, Rhuthun

*“Roedd y cwrs ar dechnegau wyna yn addysgiadol iawn, a chanolbwyntiodd ar iechyd a maeth mamogiaid ac ŵyn. Mi wnes i ddysgu'r ochr ymarferol o dynnu oen yn gywir.”*

### Mae cyrsiau hyfforddiant Cyswllt Ffermio yn cynnwys:

- Cyfrif wyau ysgarthol
- Rheoli glaswelltir
- Technegau wyna
- Maeth da byw
- Defnyddio dip defaid yn ddiogel
- Defnyddio meddyginiaethau milfeddygol mewn modd diogel
- Sganio defaid
- Cneifio defaid

Mae'r holl gyrsiau byr yn cael eu cyflwyno gan ddarparwyr hyfforddiant a milfeddygfeydd cymeradwy. Mae cymhorthdal o hyd at 80% ar gael. Mae yna hefyd dros 100 o gyrsiau e-ddysgu wedi'u hariannu'n llawn, gyda sawl un yn benodol i iechyd a lles anifeiliaid. Gallwch eu dilyn yn eich amser ac ar eich cyflymder eich hun.



## Storfa Sgiliau – cofnodi eich cyflawniadau



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

STORFA  
SGILIAU

- Bydd cwblhau pob hyfforddiant yn llwyddiannus – boed drwy fynychu yn bersonol neu drwy e-ddysgu – yn ennill 'Tystysgrif Cymhwysedd' i chi. Bydd hwn yn cael ei lwytho'n awtomatig i'ch cofnod Storfa Sgiliau personol ar-lein, gan roi tystiolaeth o achrediad ar gyfer cynlluniau sicrwydd fferm. Bydd hefyd yn eich helpu i gadw cofnod cyfredol o'ch cyflawniadau a nodi unrhyw feysydd lle byddech yn elwa o hyfforddiant.

Ewch i wefan Cyswllt Ffermio i ddarganfod mwy ac i wneud cais am gyllid.



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

SGILIAU A  
HYFFORDDIANT  
SKILLS AND  
TRAINING

## Pam y gallai DPP fod y buddsoddiad mwyaf cadarn y gwnewch chi byth

Mae stociau a chyfranddaliadau, a'r rhan fwyaf o opsiynau eraill, yn gallu mynd i fyny neu i lawr dros nos. Mae risg uchel i bob un ohonyn nhw! Ond mae yna un buddsoddiad lle byddwch chi ar eich ennill bob tro! Os ydych chi'n uchelgeisiol ac yn gweithio ym myd amaeth, garddwriaeth neu goedwigaeth, beth am fuddsoddi yn eich datblygiad personol eich hun nawr? Gwnewch hyn i baratoi eich hun a'ch busnes ar gyfer gofynion economaidd ac amgylcheddol y dyfodol.

**Gweithiwch yn gallach, yn fwy diogel, yn fwy cynaliadwy ac arbedwch arian!**


- ✓ Dysgwch sgiliau newydd neu loywi rhai sydd gennych chi eisoes
- ✓ Mynnwch y wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau, arloesi a thechnolegau newydd heddiw
- ✓ Ewch ati i leihau costau ar gyfer treuliau proffesiynol a gwasanaethau contractwyr

Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig amrywiaeth o opsiynau hyfforddiant busnes, ymarferol a thechnegol. Mae llawer o gyrsiau'n cael eu hariannu'n llawn, a rhai eraill hyd at 80%. Mae cyrsiau a gweithdai byr wyneb yn wyneb, ynghyd â mwy na 100 o opsiynau e-ddysgu, wedi'u categorio'n fras yn 'busnes', 'tir', 'da byw' a 'pheiriannau'.

**Yn galw am ymrwymiad rhanddeiliaid, gan broffesiynoli'r diwydiant**

Nid yw datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn rwymedigaeth yn ôl y gyfraith ar hyn o bryd i weithwyr yn y diwydiannau tir yng Nghymru. Ond mae'n orfodol mewn llawer o ddiwydiannau a phroffesiynau eraill. Mae Dr Nerys Llewelyn Jones, cadeirydd Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru, eisoes yn gweithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid gwledig yng Nghymru, gan eu hannog i hyrwyddo gwerth DPP i'w holl aelodau.

*"Bydd gweithio'n ddiogel, yn fwy effeithlon a gwella eich set sgiliau yn helpu eich cynnydd chi a'ch busnes ac yn sicrhau dyfodol cynaliadwy," meddai Dr Llewelyn Jones.*





# MAGU LLOI IACH - pam ei bod yn hanfodol cwmpasu popeth

Mae colli stoc ifanc, boed hynny drwy farwolaethau, afiechydon neu lai o dwf, yn gost economaidd enfawr i ffermwyr biff a llaeth, yn ôl Clara Valderrama, milfeddyg fferm arbenigol gyda Farm First Vets yn y Fenni. Mae Clara yn argymhell eich bod yn trafod y pwyntiau gwirio critigol canlynol gyda'ch milfeddyg ac yn llunio cynllun iechyd lloi, gan gynnwys cynllun rheoli colostrwm, gyda'ch gilydd.

## 1. COLOSTRWM

Mae pob gwrthgyrff i amddiffyn lloi rhag heintiau cynnar eu bywyd yn dod o golostrwm. Sicrhewch fod y 'tri Q' yn gywir i sicrhau'r amddiffyniad mwyaf posibl i'ch stoc ifanc!

### › Quantity (Nifer)

Mae angen colostrwm ar bob llo yn seiliedig ar 10% o bwysau ei gorff (4 litr ar gyfer llo 40kg) ymhen dwy awr i'w eni. Mae angen hefyd ddos arall o golostrwm, yn seiliedig ar yr un gymhareb, yn y chwe awr nesaf.

### › Quality (Ansawdd)

Profwch ansawdd colostrwm – o'r godro cyntaf ymlaen, gan sicrhau ei fod yn cynnwys dros 50g/l o imiwnoglobwlinau (Ig). Os nad yw, ychwanegwch naill ai golostrwm wedi'i rewi neu un artiffisial.

### › Quickly (Yn gyflym)

Bydd yr hyn y mae'r llo yn ei amsugno trwy golostrwm yn ystod y ddwy i chwe awr gyntaf yn pennu ei iechyd a'i allu i frwydro yn erbyn haint. Wrth i'r llo fethu ag amsugno digon o golostrwm yn gyflym, mae'n cynyddu'r perygl o farwolaeth neu afiechyd difrifol, yn enwedig septisemia a dolur rhydd. I loi sydd wedi'u diddyfnu, mae llai o wrthgyrff yn eu rhoi mewn perygl o niwmonia.

## 2. ATAL CLEFYDAU A HWSMONAETH ANIFEILIAID

- › Dylech bob amser roi yr arferion gorau o ran bioddiogelwch ar waith.
- › Dylech osgoi achosi straen i anifeiliaid sydd, yn ei dro, yn atal imiwnedd. Gallai straen gael ei achosi oherwydd cludiant, eithafion tymheredd, maeth annigonol, poen a chymysgu stoc.
- › Ymhlith y peryglon i'w hystyried mae achosion o IBR, gorlenwi a chyswllt rhwng gwahanol grwpiau ac oedrannau.
- › Gweithiwch gyda'ch milfeddyg i geisio nodi unrhyw faterion yn ymwneud ag ymwrthedd i wrthfotigau, Mycoplasma a phathogenau eraill fel BVD a pharasitiaid sy'n lleihau imiwnedd.
- › Mae brechu anifeiliaid iach yn gallu helpu i wella eu himiwnedd i bathogenau penodol.



Clara Valderrama, Bsc (Anrhydedd) BVetMed MCCVS - Milfeyddyg gyda Farm First Vets

### 3. HYLENDID A GLENDID

- › Sicrhewch fod anifeiliaid yn cael eu cadw mewn corlannau â deunydd gorwedd glân a sych, a thrin bogail yn briodol.
- › Casglwch golostrwm yn lân a'i storio mewn oergell am ddim mwy na 24 awr neu ei labelu a'i rewi. Ewch ati i basteureiddio pan fo modd.
- › Dylech bob amser ddadmer colostrwm ar lai na 60 gradd Celsius trwy borthwyr tiwb, poteli neu dethau wedi'u sterileiddio.

### 4. YR AMGYLCHEDD

- › Dylech osgoi lleihau imiwnedd lloi yn sgil awyru gwael neu lai o le, tymereddau isel, drafftiau, amodau llaith a lldiau anadlol fel amonia neu lwch.
- › Ystyriwch y ffordd orau o reoli cyfradd cyfnwid aer, lleithder a glendid. Mae'r rhain i gyd yn pennu crynodiad a goroesiad pathogenau.

### 5. EDRYCH YMLAEN

Mae maeth yn allweddol i'r iechyd gorau posibl. Mae rhoi dŵr glân, ffres a mynediad cynnar at ddwysfwyd yn hanfodol i ddatblygiad y rwmen. Er mwyn lleihau straen a chaniatáu i'r anifeiliaid fwyta mwy, mae angen sicrhau bod digon o laeth yn cael ei roi; bod y porthwyr yn lân ac yn hygyrch; bod y peiriannau bwydo'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda; a bod yr amserlenni bwydo'n gyson.

Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig gweithdai ar iechyd a lles anifeiliaid sydd wedi'u hariannu'n llawn ac yn cwmpasu'r holl bynciau uchod. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno gan filfeddygon fferm cymeradwy ledled Cymru. Neu fe allwch chi wneud cais am gyrsiau byr achrededig wyneb yn wyneb, wedi'u hariannu hyd at 80%. Mae yna hefyd sawl opsiwn e-ddysgu yn cael eu hariannu'n llawn.

Am ragor o wybodaeth, ewch i <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/sgiliau-hyfforddiant>



# Awgrymiadau mewnbwn defnyddiol ar gyfer tyfwyr sy'n ystyried llwybrau newydd i'r farchnad

## Tail a chompost ar gyfer garddwriaeth

Mae gwrrtaith organig yn adnodd pwysig ar gyfer ychwanegu maetholion i briddoedd a gwella llwyddiant a chynhyrchiant cynydau. Fodd bynnag, fel cynnyrch gwastraff organig, mae tail yn dod â nifer o risgiau halogi, yn bennaf yn ymwneud â phathogenau a chemegau. Mae ffyrdd o leihau'r risgiau hyn yn cynnwys storio a chompostio i helpu i ddiraddio'r rhain.

### BETH YW'R RISGIAU?

- Gall halogi cynydau bwyd arwain at bathogenau milheintiol, gan achosi clefydau mewn pobl a pheryglu rhoi tyfwr allan o fusnes
- Gallai cynydau y gellir eu cyd-bori, eu defnyddio fel porthiant neu sgil-gynhyrchion sy'n cael eu bwydo i dda byw achosi clefydau sy'n effeithio ar iechyd a chynhyrchiant anifeiliaid.
- Bwydydd parod i'w bwyta nad ydynt efallai'n cael eu coginio sydd fwyaf mewn perygl

### BETH YW'R RHEOLIADAU?

O ran defnyddio ar gynydau parod i'w bwyta, lle mae tail amrwd neu dail wedi'i brosesu yn cael ei ystyried, rhaid dilyn y rhain:

1. Dim ond os oes **bwllch o 12 mis i gynaeafu** y gellir defnyddio tail/slyri, gan gynnwys **bwllch o 6 mis rhwng gwasgaru tail a hau/plannu** cynydau
2. Fel arall, rhaid **storio tail heb ychwanegu ato am 6 mis** (*nid oes unrhyw dail ffres ychwanegol yn cael ei ychwanegu yn ystod y cyfnod hwn*) ac yna gellir ei wasgaru.
3. Rhaid troi tail hunan-gompostio **o leiaf ddwywaith yn ystod y 7 niwrnod cyntaf a chyrraedd 55°C am o leiaf 3 diwrnod**
4. Dylai cyfanswm hyd compostio tail fod o **leiaf 3 mis** cyn iddo gael ei wasgaru, er mwyn cynyddu'r broses o dynnu pathogenau
5. Ar gyfer tyfwyr cymysg, lle mae anifeiliaid yn ychwanegu tail yn uniongyrchol at gaeau, mae'r un **ystyriaethau â phwynt 1 yn berthnasol** o ran bylchau
6. **PEIDIWCH** – â gwasgaru tail ar gynydau sydd eisoes yn tyfu gan fod y rhain yn peri risg uchel o halogiad, dylai pob gwasgariad ddiwydd cyn drilio/plannu
7. **PEIDIWCH** – â dod o hyd i dail o anifeiliaid rydych chi'n gwybod bod ganddynt glefyd hysbysadwy



## CNYDAU SY'N BAROD I'W BWYTA

Ffrwythau coed	Salad a Ffrwythau meddal	Garddwriaeth
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ffrwythau coed (<i>afalau, gellyg ac ati</i>)</li> <li>Ffrwythau cerrig (<i>eirin, ceirios ac ati</i>)</li> <li>Gwinwydd</li> <li>Cnau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Letys a salad deiliog</li> <li>Radis</li> <li>Winwns</li> <li>Ffa (<i>gan gynnwys ffa dringo, ffa llydan a ffa byr Ffrengig</i>)</li> <li>Pys gwinwydd</li> <li>Pys yn eu codennau a werthir yn ffres</li> <li>Mangetout</li> <li>Bresych</li> <li>Blodfresych</li> <li>Calabrese/Broccoli/Cêl</li> <li>Courgettes</li> <li>Seleri</li> <li>Betys coch</li> <li>Moron</li> <li>Perlysiâu (<i>Herbs</i>)</li> <li>Asbaragws</li> <li>Garleg</li> <li>Sialots</li> <li>Sbigoglys</li> <li>Sicori</li> <li>Seleriac</li> <li>Ffenigl</li> <li>Ffrwythau meddal (<i>cyrens ac aeron</i>)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cnydio a ddiogelir yn y pridd (<i>gan gynnwys tomatos, ciwcymber, pupryn, berwr ac ati</i>)</li> <li>Madarch</li> </ul>

### Sut i'w wneud yn gyflymach

Un ffordd o gyflymu'r broses o ddefnyddio tail yw sicrhau bod pathogenau yn cael eu dileu i lefelau diogel. Mae systemau trin gwres y gellir eu defnyddio ar gyfer hyn, ond gall y rhain fod yn gymhleth ac yn ddurd.

Ffordd gyflymach arall yw compostio'n fwy cywir a'i fonitro hyd at safon ddiogelwch o'r enw 'Manyleb ar gael yn Gyhoeddus i'r Cyhoedd ar gyfer Deunyddiau wedi'u Compostio' (PAS 100). Nid yw deunyddiau sy'n cael eu compostio i'r safon hon bellach yn cael eu dosbarthu fel gwastraff, ac felly nid oes cyfyngiadau rheoliadol yn gysylltiedig â nhw. Mae costau'n gysylltiedig â chael y seilwaith a'r offer i gompostio i'r lefel hon, ynghyd â chostau cyrff achredu uniongyrchol. Oni bai bod gennych gynllun ar gyfer busnes a allai ehangu'n gyflym i gynnwys hyn efallai na fydd yn ymarferol.

**Gallai fod o fudd i chi ddod o hyd i gynhyrchwyr PAS100 lleol ac edrych ar drefniadau cyflenwi tail yn gyfnewid am gompost cost is, diogel, o ansawdd uchel.**

## YSTYRIAETHAU ERAILL

Organig	Storio	Gwasgaru	Canllawiau cyflenwyr
Wrth dyfu bwyd organig, fe'ch cynghorir yn gryf bod ffynhonnell tail da byw hefyd yn organig. Os nad yw hyn yn wir, yna mae Cymdeithas y Pridd yn ei gwneud yn ofynnol i chi brofi halogiad GMO (hyd at derfyn canfod o 0.1%) a llenwi ffurflenni datgan GMO yn ogystal â chynnal profion ar weddillion pladdwyr.	Mae storio yn gyfnod arall lle gall tail neu dail wedi'i gompostio gael ei halogi gan bathogenau, felly mae cynnal bioddiogelwch uchel yn ystod y broses hon yn allweddol.	Wrth wasgaru ar briddoedd, ystyriwch pryd, ble a sut rydych chi'n gwasgaru'r newidiadau hyn, er mwyn osgoi halogiad a dŵr ffo yn mynd i ardaloedd cyfagos a ffynonellau dŵr.	Byddwch yn ymwybodol y gall canllawiau cyflenwyr penodol fod yn ychwanegol at reoliadau diogelwch, felly ystyriwch y rhain wrth drafod contractau gwerthu fel tyfwr.

### ADNODDAU DEFNYDDIOL - Cliciwch am fwy o wybodaeth

- Cyswllt Ffermio - Garddwriaeth ➤ Canllawiau Asiantaeth Safonau Bwyd ➤ Cyrff ardystio bwyd organig
- Llawlyfr Compostio ar gyfer Garddwriaeth ➤ E-ddysgu Compost Tail ➤ E-ddysgu ar gompostio ar y safle



# Rheolau BVD Newydd i Gymru

O 1 Gorffennaf 2024, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno **Gorchymyn Dolor Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024** i gefnogi nod BVDCymru (y grŵp a arweinir gan y diwydiant) o ddileu BVD yng Nghymru.

Bydd gofyn i geidwaid gwartheg, o **1 Gorffennaf 2024**, wneud y canlynol:



Cwblhau'r prawf blynyddol ar eu buches erbyn **1 Gorffennaf 2025** (bydd eich milfeddyg yn gallu eich cynghori ar ba stoc fydd angen ei phrofi).



Ynysu anifeiliaid sydd â Haint Parhaol (PI) oddi wrth weddill y fuches am weddill eu hoes.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

- **Eich Milfeddygfa bersonol**
- EIDCymru - **01970 636959**
- Undeb Amaethwyr Cymru - eich **swyddfa UAC sirol** neu **01970 820820**
- NFU Cymru - **0370 845 8458**
- Coleg Sir Gâr - Gelli Aur - **01554 748576**
- Canolfan Milfeddygaeth Cymru - **01970 612374**
- Gwasanaethau Iechyd Anifeiliaid (Mentera) - **01248 668639**

Am arweiniad llawn, ewch i:

[www.llyw.cymru/cynllun-dileu-dolor-rhydd-feirysol-buchol-cymru-canllawiau](http://www.llyw.cymru/cynllun-dileu-dolor-rhydd-feirysol-buchol-cymru-canllawiau)

neu

**Sganiwch yma**

